CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 1af TACHWEDD 2022

PRESENNOL:
Cyng Ms N Dafydd, J Evans, J E Lewis, Miss B Owen, R G Parry, D T Roberts, Mrs L Roberts, R R Roberts,

YMDDIHEURIADAU:
G Jones, W R Parry.

Dyddiad y Cyfarfod wedi ei newid o 18ed Hydref oherwydd gwaledd.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

CAEL COFNODION 20ed MEDI 22 YN RHAI CYWIR: Cynnig Cyng Mrs L Roberts, eilio Cyng R R Roberts. Gyda pawb yn hapus.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Elusen William Bold.
Cafwyd ymateb gan Ysgrifennydd yr Elusen. Nid ydyw yn ateb beth mae`r Cyngor yn ei ofyn. (Gweler Cofnodion 19eg Gorffennaf 2022.)
Mae yn dweud nad oes gan yr Elusen ddim sylwadau na unrhyw anghenriad i`w hateb.
Yr unig ymrwymiad sydd gan y Cyngor ydyw dewis 2 aelod o Gyngor Bodffordd i weithredu a`r yr Elusen. (Ar ol gofyn yn y lle cyntaf am un aelod. Cyng J E Lewis yn pwyntio allan fod angen dau) (Bwriadol neu oedd yn amryffusedd gwir)
Yr Elusen yn atebol i`r Comisiwn Elusennau a fydd yn barnu a dim y Cyngor Cymdeithas.
Sicrhau fod pob rhan o`r prosesau wedi ei dilyn bob blwyddyn i`r ddeddf yn unol a`r chyfansoddiad yr Elusen o 2001.
Mae yr Elusen yn gofyn unawaith yn rhagor i ddewis ymddiriedolwr / wraig in weithredu am 4 blynedd o Ward Heneglwys. (Ward Bodffordd yn wreiddiol) felly dewisiwyd Cyng Mrs L Roberts, mae`r Cynghorwyr i gyd yn cyngrychioli Cyngor Cymdeithas Bodffordd. Mae`r Elusen yn gwrthod ei derbyn. Efallai bydd rhaid meddwl am ddewis dau ymddiriedolwr newydd?
Mae yr Elusen wedi ychwanegu ychydig at Gyfansoddiad 2001.
"Two trustees appointed by Bodffordd Community Council from Heneglwys Ward on the Council".
Dyddiedig 6ed Hydref 2022. Dewiswyd Cyng Mrs L Roberts ym mis Mehefin. Fel cafwyd ar ddeall a oes hawl i newid yr hen gyafnsoddiad.? A ydyw yn sefyll?
Y Cyngor yn disgwyl am atebiad yn ol gan Adran Gyfreithiol Un Llais Cymru cyn gwneud penderfyniad pellach. Cynnig Cyng Mrs L Roberts, eilio Cyng R R Roberts. Ond mae yn rhaid cael atebion.

Hysbysfordiau. Bodffordd.
1. Ysgol Bodffordd (6 x A4) Anodised Silver. postiau concrid. £494.00
2. Mynwent Gymunedol Bodffordd. (4 x A4) Anodised Silver. Postiau Concrid. £446.00
3. Neuadd Goffa Bodwrog. (6 x A4) Anodised Silver. Ar y Coesau presennol. £399.00.

Derbyn yr amcangyfrif a pwyso ymlaen i`w prynu. Y Clerc i weithredu.
Cynnig Cyng D T Roberts, eilio Cyng J E Lewis. Pawb yr un farn.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2021/124. Cais llawn ar gyfer dymchwel yr unedau moch presennol, newid defnydd tir i fod yn safle Bythynod Gwiliau, lleoli 25 o adeiladau Bwthyn Gwyliau, Addasiadau i Fynedfeydd presennol i gerbydau, Adeiladu Ffyrdd Preifat, Adeiladu Meysydd Parcio, gosod Cyfleuster Trin Carthffosiaeth, Tirlunio meddal a chaled ynghyd a gwaith cysylltiedig ar dir yn:-
   Bodwina Bellaf, Gwalchmai Tynlon.

   Gwrthwynebiad cryf.
   Draenio. yn un o`r prif bryderon:-
   Fel yr ydym ar ddeall mae`r twrniod yn gweithredu yma.
   Yr unig hawl sydd gan yr ymgeisydd ydyw rhoi dwr gwyneb o un plot, iard uchaf y safle i lawr y bibell. Dim math o hawl i rhoi y draeniad budr i lawr y bibell. Mae`r afon yn ymyl a`r dwr yn rhedeg am Bodffordd i Llyn Felin.
   Y lon o`r A5 tuag at y safle:-
   Yn y Cynlluniau maen`t yn cymryd rhan o glawdd teulu Tyn Rhos a Fferm Bodwina. Er mwyn lledu`r lon Nid oes hawl i hyn. A pendant fydd dim cefnogaeth. Y lon yn gallu bod yn beryglus am ei chyflwr.
   Adroddiad Datganiad Trafnidiaeth a wnaethpwyd yn ymwneud a`r Cais Cynllunio dim wedi ystyried y traffig sydd yn mynd i bedwar eiddo ar y lon o`r A5 cyn y safle. Adroddiad wedi ei chwblhau pan oedd cyfnod clo arall ar ddechrau, felly nid oedd traffig uchel. Yn arbennig o`r digwyddiadau ar gae Sioe Mon (Sel Cist Car) Yr asesiad o draffig ar y lon fydd 62 o geir yn fwy yn ddyddiol. Mae`r lon yn beryglus i`r cerddwyr gan fod dim palmant na goleuadau.
   Y Cynllun diwygiedig yn nodi bydd palmant ond bydd rhaid cymryd clawdd / tir. Dim yn gweld caniatad gan y tirfeddianwyr.
   Priffyrdd ei hunain yn dweud fod y lon yn rhy gul. Mae damweiniau yma yn amal un ddrwg yn ddiweddar.
   Nifer i weithio yn rhy uchel ac nid yn realistig i faint y datblygiad.
   Mae yn bryder mawr newid safle Amaethyddol yng nghefn gwlad mewn Ardal Gymreig. (Mae gwratheg a ceffylau yn cael ei cadw arno nawr.)
   Safle ddim o fewn ffiniau datblygu`r Cyngor.
   Heb gwblhau Datganiad Cymunedol a Ieithyddol. Dim son am yr Iaith Gymraeg.
   Gwrthwynebu Cais Cynllunio ar Sail Perygl i`r Gymraeg.
   Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng R G Parry. Rhan fwyaf yn gwrthwynebu, dim ateb gan rhai.

PENDERFYNIADAU.

2. FPL/2022/191. Cais ol-weithredol i ddiwygio y fynedfa presennol yn
   Rhyd Fawr, Trefor.
   Caniatad. Y Cyngor yn ei gefnogi yn y lle cyntaf.

3. FPL/2022/160. Cais llawn i newid defnydd yr Hen Redfa Concrid yn Ardal Hyfforddi gyrwyr HGV, ynghyd a storio Cerbydau HGV, dau Gaban Symudol a Chynhwysydd yn:-
   Hen Rhedfeydd Concrit, RAF Mona, Stad Ddiwydiannol, Mona, Bodffordd.
   Caniatad. Derbyn dim sylw.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

4. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
   FW: Datganiad: Chwe Uned Busnes Newydd wedi ei cwblhau. Ym Mharc Diwydiannol, Tregarnedd, Llangefni.
   Mwy o wybodaeth. Stephan Davies Uned Gyfathrebu 01248 752128.
   Derbyn. Da gweld datblygiad.

5. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Llais Mon wedin ei glywed yn Fforwm Ynysoedd Newydd.
   Mynychodd Cynrychiolwyr Ynysoedd yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr y digwyddiadau a gynhaliwyd yn Orkney. Cadeirwyd gan Weinidog Llywodraeth y DU ar gyfer cystylliadau Rhynglywodraethol , Nadim Zahawl.
   Portffolio Cyllid y Cyngor Sir Cyng Robin Williams yn cael y cyfle i fynychu`r fforwm yn Orkney ar ran y Cyngor.
   Derbyn y wybodaeth. dim sylw.

6. Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) Swyddog Monitro - Lynn Ball.
   Aelodau Cyngor Tref / Cymuned o Pwyllgor Safonau y Cyngor Sir.
   Enwebiad isod wedi dod i law mewn perthynas a`r ddwy Sedd Wag i Gynrychiolwyr o Gynghorau Tref / Chymuned ar Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Mon.
   Cyng Gwen Evans-Jones (Cyngor Tref Beaumaris)
   Cyng Stephen Mark Griffiths (Cyngor Cymdeithas Aberffraw)
   Cyng Iorwerth Roberts (Cyngor Cymdeithas Bryngwran)
   Cyng Margaret Ann Thomas (Cyngor Tref Llangefni)
   Gwahoddir pob Cyngor i ddewis y ddau ymgeisydd maent yn ei ffafrio, cyn i`r penodiadau gael ei cadarnhau`n ffufriol gan y Cyngor Sir (5ed Tachwedd 2022)
   Dewisiad y Cyngor Cymdeithas fel a ganlyn:-
   Cyng Iorwerth Roberts. Cynnig Cyng R G Parry eilio Cyng Miss Bethan Owen. Nid oedd gwrthwynebiad.
   Cyng Margaret Ann Thomas. Cynnig Cyng R R Roberts eilio Cyng Miss Bethan Owen. Nid oedd gwrthwynebiad.

7. Swyddog Polisi - Rhian W Jones. (Prif Weithredwr Dylan Williams)
   "Ein Dyfodol" Ymgynhoriad ar flaenoraethau`r Cyngor ar gyfer 2023 - 28. Cyfnod nawr wedi`i ymestyn i 14eg Tachwedd 2022.
   Ychydig funudau i gwblhau`r arolwg ar-lein www.ynysmon.llyw.cymru/eindyfodol
   Hefo`r cwynion sydd am y Cyngor, oes gobaith ei bod yn mynd i gymryd sylw o`r arolwg.

8. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Datganiad Cartref Newydd i`r Urdd yn cynnig cyfle i gydweithio rhagor. Mae criw Urdd wedi ymgartrefu yngh Nghanolfan Fusnes Mon a leoli`r ym Mharc Diwydiannol Bryn Cefni ar gyfrifon Tref Llangefni.
   Wyth Aelod o Staff wedi ail-leoli yno ar ol i`r Urdd arwyddo prydles o dair blynedd. Rhannu`r un adeilad a Swyddogion Hamdden ag adain datblygu Economaidd y Cyngor Sir. Croesawu`r Urdd i Llangefni ar ol cyfnod hapus yn Ysgol Uwchradd Bodedern.
   Derbyn. Gobeithio byddant yn hapus yma.

9. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Datganiad Cynllun Prynu Cartref newydd i gefnogi prynwyr tro cyntaf ar Ynys Mon.
   Darparu cymorth ychwanegol i brynwyr tro cyntaf a phobl sydd methu fforddio prynu ty ar y farchnad agored yn Ynys Mon.
   Yn y lle cyntaf bydd cynllun prynu cartref Ynys Mon a lansiwyd gan y Cyngor Sir yn defnyddio £325,000 o arian a sicrhawyd drwy`r premiwm ar ail dai i helpu trigolion lleol brynu eu cartref cyntaf yn ystod y 12 mis nesaf.
   Ar gael:-
   Prynwyr tro cyntaf lleol sy`n cael trafferth prynu cartref.

Pobl sydd wedi bod yn berchen ar eiddo yn y gorffennol on sydd dim ar hyn o bryd.
Perchnogion sydd eisioes yn rhan o gynllun rhannu ecwiti ag sydd yn chwilio am gartref addas.
Cynllun yn golygu bydd y Cyngor yn benthyca ecwiti i ymgeiswyr sydd yn methu cael Morgais digonol i brynu ar y farchnad. Bydd y ty wedyn yn dod yn eiddo ecwiti a rennir.
Rhagor o wybodaeth ar y wefan Tai Teg https://taiteg.org.uk/cy/register A copi o bolisi rhannu ecwiti Cyngor Sir Ynys Mon ar gael ar ei wefan:
https:///www.ynysmon.llyw.cymru/cynllun-prynu-cartref
Derbyn y wybodaeth. Mawr obeithio y bydd yn effeithiol.

10. Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc. Marc B Hughes.
Penderfyniad ar ol Ymgynghoriad Statudol (Gostwng oed mynediad Ysgol Corn Hir i 3 oed ar y 1af Medi 2023. Mae`r Deilydd Portffolio Addysg a`r Iaith Gymraeg wedi cytuno gyda`r argymhelliad a wedi rhoi caniatad i fynd ymlaen y gyhoeddi rhybudd statudol. Cysylltu a ni pan fydd y rhybudd stadudol yn cael ei gyhoeddi.
Derbyn y wybodaeth. Dim yn addas i Bodffordd, hefo`r Ysgol ddim yn cau.

11. *Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Dan Hyfforddiant) William Evans.*
Adroddiad Comisiwn Etholiadau. Cyngor yn derbyn.

GOHEBIAETH (ARALL)

12. Grwp Cynhefin. Atodlen 1C - Erthygl 2D - Ymgynhoriad cyn gwneud Cais am Ganiatad Cynllunio - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithgareddau Rheoli Datblygu)(Cymru) 2012.
Datblygiad Arfaethedig Ar Dir ger Haulfryn, Bodffordd.
Rhybudd fod Grwp Cynhefin yn Bwriadu gwneud Cais am Ganiatad Cynllunio llawn ar gyfer codi 15 o Dai Fforddiadawy, ynghyd a chreu mynedfa newydd. Lon gysylltiedig a gwaith charthffosiaeth. Cais ar lein neu cysylltu yn uniongyrchol. Cadarn Consulting Engineers Ltd. Canolfan Fusnes Mon, Bryn Cefni, Llangefni LL77 7XA.
Disgwyl am Cynlluniau. Nid yn hawdd rhoi ymateb ond mae yn rhaid fod yn barod dweud fod y Cyngor yn gwrthwynebu ar y sail fod yr agoriad yn peryglus ceir yn parcio i fawr y lon (dim lle arall) Trigolion Bodffordd yn ei erbyn. Plant yn disgwyl bws yr Ysgol wrth y Capel yn y Lloches Bws. Mae rhaid iddynt wrando ar dymuniadau y bobl.

13. Fferm Wynt ar y Mor Mona - Ifer Gwyn.
Lansio Ymgynghoriad EnBw bp.
Wedi lansio ail gam Fferm Wynt ar y mor datblygu ym mor Iwerddon.
Ymgynghoriad 26ain Medi 2022 hyd 7ed Tachwedd 2022.
Gwefan www.morganandmona.com. Ffon cwestiynau 0800 860 6263.
Derbyn. Dim diddordeb na unrhyw sylw.

14. Rheolwr Rhawd Gymunedol Llangefni PC2052 Howell John Owens.
Cychwyn fel Rheolwr Rhawd Gymunedol yn ei Hardal ni.
Edrych ymlaen ein cyfarfod os bydd cyfle i fynychu un o`r cyfarfodydd yn y dyfodol.
Howell.Owens@northwales.police.uk / 07989158783.
Derbyn. Da gweld fod cysylltiad gan yr Heddlu. Nid oedd posib cynt i gael neb i fynychu y Cyngor pan oedd angen.

15. *Cyngor ar Bobpeth. Angharad Lloyd-Jones.*
Gwahoddiad Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 27ain Hydref 2022.
Canolfan Ebeneser, Llangefni am 7.00pm.
Ymuno yn bersonol neu dros Zoom. Gwr Gwadd Mr Mark Salisbury - Ymddiriedolwr y Sefydliad Niwclear "Pris Cynyddol Ynni".

Zoom: https://us02webzoom.us/j/86920208676. Meeting ID: 86920208676.
Derbyn. Er bod y Cynghorwyr yn wybodol mewn amser am y Cyfarfod. Ni chafwyd son fod neb wedi mynychu na defnyddio Zoom.

RHODDION.
16. Dim.

PLWYFOL.
17. Cyng G Jones yn cwyno a gyflwr y palmentydd ar lon Cae`r Delyn, Bodffordd. Mae angen ei glanhau oherwydd fod adeiladu yn cymryd lle. Y Clerc wedi cysylltu ac Adran Priffyrdd y Cyngor Sir. Heb gael ymateb eto, na dim wedi ei wneud i`r palmentydd. Mae rhaid ei atgoffa eto.

18. Cyng Non Dafydd yn holi y Cyngor Sir am Fin Gwyrdd i`r Fynwent Gymunedol. A gobeithio na fydd hwn yn cael traed fel y rhai eraill. (Y Clerc wedi bod mewn cysylltiad hefyd)

19. Cyng Non Dafydd. Lon Capel Seion, Llandrygarn. Arwydd "Nid yn Addas i Tramwy Trwm" wedi ei osod ger Sherry. Maen`t wedi gosod plainings i greu mannau pasio. Mae`r gwaith yn warthys, ac nid ydyw yn dderbyniol. Y Cynghorydd yn cysylltu a`r Cyngor Sir.

MATERION ARIANNOL:
20. Cyfrif Rhedegol £12,689.40.

21. Mynwent Gymunedol £6,890.00.

TALIADAU:
22. Clerc £250.00. N G Williams (Torri Glaswellt Mynwent Gymunedol) Taliad diwethaf. £425.00.

Derbyn y taliadau a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng R R Roberts eilio Cyng R G Parry.

D Owen (Clerc)